



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1642 (Cy.157)**

**2006 No. 1642 (W.157)**

**TAI, CYMRU**

**HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo  
Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006**

**The Residential Property Tribunal  
(Fees) (Wales) Regulations 2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd mewn perthynas ag apeliadau a cheisiadau i dribiwnlysoedd eiddo preswyl. Maent yn gymwys o ran apeliadau a cheisiadau o unrhyw un o'r mathau a bennir yn rheoliad 3 sy'n cael eu gwneud ar ôl 23 Mehefin 2006 o ran mangreoddedd yng Nghymru.

These Regulations make provision for the payment of fees in respect of appeals and applications to residential property tribunals. They apply in relation to appeals and applications of any of the descriptions specified in regulation 3 that are made after 23 June 2006 in relation to premises in Wales.

Mae Rheoliadau 3 a 4 yn ei gwneud yn ofynnol talu ffi o £150 pan wneir apêl neu gais i dribiwnlys yn ymwneud â-

Regulations 3 and 4 require a fee of £150 to be paid when an appeal or application is made to a tribunal relating to-

pan fo awdurdod tai lleol yn gwrthod cymeradwyo defnydd o fangre os oes gorchymyn gwahardd o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn ei le mewn perthynas â'r fangre honno;

the refusal of a local housing authority to approve the use of premises where a prohibition order under Part 1 of the Housing Act 2004 ("the Act") is in place in relation to those premises;

pan fo awdurdod tai lleol yn gwrthod rhoi hysbysiad esemptiad dros dro mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sy'n ddarostyngedig i drwyddedu gofodol o dan Ran 2 o'r Ddeddf;

the refusal of a local housing authority to grant a temporary exemption notice in relation to a house in multiple occupation which is subject to compulsory licensing under Part 2 of the Act;

pan fo awdurdod tai lleol yn gwrthod rhoi hysbysiad esemptiad dros dro mewn perthynas â mangre sy'n ddarostyngedig i drwyddedu dethol o dan Ran 3 o'r Ddeddf;

the refusal of a local housing authority to grant a temporary exemption notice in relation to premises which are subject to selective licensing under Part 3 of the Act;

pan fo awdurdod tai lleol yn gwneud, neu'n gwrthod dirymu neu amrywio, hysbysiad gwella o dan Ran 1 o'r Ddeddf;

a local housing authority's making of, or refusal to revoke or vary, an improvement notice under Part 1 of the Act;

pan fo awdurdod tai lleol yn gwneud, neu'n gwrthod dirymu neu amrywio, hysbysiad gwahardd o dan Ran 1 o'r Ddeddf;

a local housing authority's making of, or refusal to revoke or vary, a prohibition order under Part 1 of the Act;

lefel y treuliau a hawlr gan awdurdod tai lleol sy'n ymwneud â gwaith a wnaed ganddo pan na chafwyd cydymffurfiaeth â hysbysiad gwella;

the level of expenses demanded by a local housing authority in respect of works it has carried out where an improvement notice has not been complied with;

pan fo awdurdod tai lleol wedi rhoi neu wedi gwrthod rhoi trwydded o dan Ran 2 neu 3 o'r Ddeddf a phan fo wedi penderfynu dirymu neu amrywio trwydded o'r fath (neu wedi penderfynu gwrthod gwneud hynny);

pan fo awdurdod tai lleol wedi rhoi gorchymyn rheoli dros dro neu derfynol o dan Ran 4 o'r Ddeddf, neu delerau'r gorchymyn hwnnw, a'i benderfyniad i ddirymu neu i amrywio gorchymyn o'r fath (neu ei benderfyniad i wrthod gwneud hynny);

pan fo awdurdod tai lleol wedi rhoi gorchymyn terfynol rheoli tŷ gwag o dan Ran 4 o'r Ddeddf, neu delerau'r gorchymyn hwnnw, a'i benderfyniad i ddirymu neu i amrywio gorchymyn o'r fath (neu ei benderfyniad i wrthod gwneud hynny);

iawndal taladwy i drydydd parti pan fo gorchymyn rheoli yn cael ei wneud o dan Ran 4 o'r Ddeddf;

rhoi gorchymyn dymchwel o dan Ran 9 o Ddeddf Tai 1985;

cais i wneud gwaith i fangre nad yw'n ffit o dan Ran 9 o Ddeddf Tai 1985.

Nid oes ffi i'w thalu os yw seiliau apêl yn erbyn gorchymyn rheoli yn cynnwys methiant i ddelio â thaliad sy'n delio â materion penodedig, er enghraifft, taliad o renti dros ben.

Mae Rheoliad 5 yn darparu y bydd yr apelydd neu'r ceisydd dan rwymedigaeth i dalu'r ffi ac yn darparu ar gyfer gosod y ffi o'r neilltu os yw'r apelydd neu'r ceisydd neu bartner yr apelydd neu'r ceisydd yn derbyn budd-dâl penodedig.

Mae Rheoliad 6 yn gosod yr amgylchiadau pan gaiff y tribiwnlys orchymyn i un parti i apêl neu gais ad-dalu unrhyw ffioedd a dducpwyd o dan reoliad 3 gan barti arall.

Mae arfarniad rheoliadol wedi cael ei wneud mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael oddi wrth Uned y Sector Breifat, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn 02920825111; e-bost HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk).

a local housing authority's grant or refusal to grant a licence under Part 2 or 3 of the Act and its decision (or refusal) to revoke or vary such a licence;

a local housing authority's grant of, or the terms of, an interim or final management order under Part 4 of the Act, and its decision (or refusal) to revoke or vary such an order;

a local housing authority's grant of, or the terms of, a final empty dwelling management order under Part 4 of the Act, and its decision (or refusal) to revoke or vary such an order;

compensation payable to a third party where a management order is made under Part 4 of the Act;

the grant of a demolition order under Part 9 of the Housing Act 1985;

an application to carry out works to unfit premises under Part 9 of the Housing Act 1985.

A fee is not payable where the grounds for appeal against a management order includes failure to deal with payment to deal with specified matters, for example, payment of surplus rents.

Regulation 5 provides for the appellant or applicant to be liable for payment of the fee and for the fee to be waived where the appellant or applicant or the partner of the appellant or applicant is in receipt of specified benefits.

Regulation 6 sets out the circumstances in which the tribunal may order one party to an appeal or application to reimburse any fees incurred under regulation 3 by another party.

A regulatory appraisal has been carried out in connection with these Regulations and is available from the Private Sector Unit, Department for Social Justice and Regeneration, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (telephone 02920825111; email HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk).

## 2006 Rhif 1642 (Cy.157)

## 2006 No. 1642 (W.157)

## TAI, CYMRU

## HOUSING, WALES

Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo  
Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006The Residential Property Tribunal  
(Fees) (Wales) Regulations 2006*Wedi'u gwneud* 20 Mehefin 2006*Made* 20 June 2006*Yn dod i rym* 23 Mehefin 2006*Coming into force* 23 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan baragraffau 1 a 11 o Atodlen 13 i Ddeddf Tai 2004(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by paragraphs 1 and 11 of Schedule 13 to the Housing Act 2004(1), makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a dehongli****Title, commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Mehefin 2006.

1.-(1) The title of these Regulations is the Residential Property Tribunal (Fees) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 23 June 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn-

(2) In these Regulations-

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Housing Act 2004;

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Tai 1985(2);

"the 1985 Act" ("*Deddf 1985*") means the Housing Act 1985(2);

ystyr "tribiwnlys" ("*tribunal*") yw tribiwnlys eiddo preswyl.

"tribunal" ("*tribiwnlys*") means a residential property tribunal.

**Cymhwyso****Application**

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran apeliadau a cheisiadau o unrhyw un o'r mathau a bennir yn rheoliad 3 sy'n cael eu gwneud ar ôl 23 Mehefin 2006 sy'n ymwneud â mangreoedd yng Nghymru.

2. These Regulations apply in relation to appeals and applications of any of the descriptions specified in regulation 3 made after 23 June 2006 in respect of premises in Wales.

**Ffioedd****Fees**

3.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5(2), mae ffi o £150 yn daladwy am-

3.-(1) Subject to regulation 5(2), a fee of £150 is payable for-

(a) apêl i dribiwnlys o dan-

(a) an appeal to a tribunal under-

(i) adran 22(9) o'r Ddeddf (gwrthod

(i) section 22(9) of the Act (refusal to approve

(1) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraffau 1 a 11 o Atodlen 13 i'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "appropriate national authority" ("yr awdurdod cenedlaethol priodol") yn adran 261(1) o'r Ddeddf.

(1) 2004 c.34. The powers conferred by paragraphs 1 and 11 of Schedule 13 to the Act are exercisable as respects Wales, by the National Assembly for Wales and, as respects England, by the Secretary of State. *See* the definition of "appropriate national authority" in section 261(1) of the Act.

(2) 1985 p.68.

(2) 1985 c.68.

- |        |   |        |  |
|--------|---|--------|--|
|        | cymradwyo defnydd o fangre sy'n ddarostyngedig i orchymyn gwahardd);  |        | use of premises subject to a prohibition order);   |
| (ii)   | paragraff 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (hysbysiad gwella);   | (ii)   | paragraph 10 of Schedule 1 to the Act (improvement notice);  |
| (iii)  | paragraff 13 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu benderfyniad i wrthod dirymu neu amrywio hysbysiad gwella);   | (iii)  | paragraph 13 of Schedule 1 to the Act (decision to vary or to refuse to revoke or vary an improvement notice);               |
| (iv)   | paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (gorchymyn gwahardd);  | (iv)   | paragraph 7 of Schedule 2 to the Act (prohibition order);  |
| (v)    | paragraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu benderfyniad i wrthod dirymu neu amrywio gorchymyn gwahardd);  | (v)    | paragraph 9 of Schedule 2 to the Act (decision to vary or to refuse to vary or revoke a prohibition order);                  |
| (vi)   | paragraff 11 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (hysbysiad gwella: hawliad i ad-ennill treuliau);   | (vi)   | paragraph 11 of Schedule 3 to the Act (improvement notice: demand for recovery of expenses);                                 |
| (vii)  | paragraff 32 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (trwyddedu HMO: penderfyniad i amrywio neu i ddirymu trwydded neu benderfyniad i beidio â gwneud hynny);                        | (vii)  | paragraph 32 of Schedule 5 to the Act (HMO licensing: decision or refusal to vary or revoke licence);                        |
| (viii) | paragraff 32 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli: iawndal i drydydd parti);  | (viii) | paragraph 32 of Schedule 6 to the Act (management order: third party compensation);  |
| (ix)   | paragraff 26(1)(a) a (b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (gorchymyn terfynol rheoli tŷ gwag);  | (ix)   | paragraph 26(1)(a) and (b) of Schedule 7 to the Act (final EDMO);  |
| (x)    | paragraff 30 o Atodlen 7 i'r Ddeddf (penderfyniad i ddirymu neu i amrywio gorchymyn terfynol neu dros dro rheoli tŷ gwag neu benderfyniad i beidio â gwneud hynny); | (x)    | paragraph 30 of Schedule 7 to the Act (decision or refusal to revoke or vary an interim or final EDMO);                      |
| (xi)   | paragraff 34(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli tŷ gwag: iawndal i drydydd parti);   | (xi)   | paragraph 34(2) of Schedule 7 to the Act (EDMO: third party compensation);   |
| (xii)  | adran 269(1) o Ddeddf 1985 (gorchymynion dymchwel);   | (xii)  | section 269(1) of the 1985 Act (demolition orders);  |
| (b)    | cais i driwlynys o dan-   | (b)    | an application to a tribunal under-  |
| (i)    | adran 126(4) o'r Ddeddf (effaith gorchymynion rheoli: dodrefn);   | (i)    | section 126(4) of the Act (effect of management orders: furniture);  |
| (ii)   | adran 138 o'r Ddeddf (iawndal taladwy i drydydd partiön);   | (ii)   | section 138 of the Act (compensation payable to third parties);  |
| (iii)  | adran 318(1) o Ddeddf 1985 (pŵer y triwlynys i awdurdodi gwneud gwaith ar fangre nad yw'n ffit neu ar gyfer gwelliant).   | (iii)  | section 318(1) of the 1985 Act (power of the tribunal to authorise execution of works on unfit premises or for improvement). |

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) a rheoliad 5(2), mae ffi o £150 i'w thalu am apel i driwlynys o dan un neu fwy o'r darpariaethau a ganlyn-

- (a) adran 62(7) o'r Ddeddf (trwyddedu HMO: gwrthod cyflwyno hysbysiad esemptiad dros dro);
- (b) adran 86(7) o'r Ddeddf (trwyddedu dethol: gwrthod cyflwyno hysbysiad esemptiad dros dro);
- (c) paragraff 31 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (rhoi neu

(2) Subject to paragraph (3) and regulation 5(2), a fee of £150 is payable for an appeal to a tribunal under one or more of the following provisions-

- (a) section 62(7) of the Act (HMO licensing: refusal to serve temporary exemption notice);
- (b) section 86(7) of the Act (selective licensing: refusal to serve temporary exemption notice);
- (c) paragraph 31 of Schedule 5 to the Act (grant or

wrthod trwydded);

- (ch) paragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (gorchymyn rheoli dros dro a gorchymyn rheoli terfynol);
- (d) paragraff 28 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (penderfyniad i amrywio neu i ddirymu gorchymyn rheoli neu benderfyniad i wrthod gwneud hynny).

(3) Nid oes ffi i'w thalu os yw apêl o dan is-baragraff (1)(b) o baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn cael ei gwneud ar y seiliau a osodir yn is-baragraff (3) o'r paragraff hwnnw.

#### Talu ffioedd

4. Mae'n rhaid i unrhyw ffi sydd i'w thalu o dan reoliad 3 fynd gyda'r apêl neu'r cais a rhaid ei thalu â siec sy'n daladwy i, neu â gorchymyn post wedi ei dynnu o blaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### Rhwymedigaeth i dalu ffi a gosod ffioedd o'r neilltu

5.-(1) Mae'r apelydd neu'r ceisydd yn atebol i dalu unrhyw ffi sydd i'w thalu o dan reoliad 3.

(2) Nid oes ffi i'w thalu o dan reoliad 3 os, ar y dyddiad y gwneir yr apêl neu'r cais, yw'r apelydd neu'r ceisydd (yn ôl y digwydd) neu bartner yr apelydd neu'r ceisydd yn derbyn-

- (a) unrhyw un o'r budd-daliadau a ganlyn o dan Ran 7 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(1)-
- (i) cymhorthdal incwm; neu
- (ii) budd-dal tai;
- (b) lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(2);
- (c) credyd treth gwaith o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002(3) y mae paragraff (3) yn gymwys iddo;
- (ch) credyd gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002(4).

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os-

- (a) naill ai-
- (i) oes elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol (neu'r ddau)(5) i'r credyd treth y mae'r person neu bartner y person yn ei gael; neu

refusal of licence);

- (d) paragraph 24 of Schedule 6 to the Act (interim and final management order);
- (e) paragraph 28 of Schedule 6 to the Act (decision or refusal to vary or revoke a management order).

(3) No fee is payable where an appeal under sub-paragraph (1)(b) of paragraph 24 of Schedule 6 to the Act is made on the grounds set out in sub-paragraph (3) of that paragraph.

#### Payment of fees

4. Any fee payable under regulation 3 must accompany the appeal or application and must be paid by a cheque made payable to, or postal order drawn in favour of, the National Assembly for Wales.

#### Liability to pay fee and waiver of fees

5.-(1) The appellant or applicant is liable to pay any fee payable under regulation 3.

(2) No fee is payable under regulation 3 where, on the date that the appeal or application is made, the appellant or applicant (as the case may be) or the partner of the appellant or applicant is in receipt of-

- (a) either of the following benefits under Part 7 of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(1)-
- (i) income support; or
- (ii) housing benefit;
- (b) an income-based jobseeker's allowance within the meaning of section 1 of the Jobseekers Act 1995(2);
- (c) a working tax credit under Part 1 of the Tax Credits Act 2002(3) to which paragraph (3) applies;
- (d) a guarantee credit under the State Pensions Credit Act 2002(4).

(3) This paragraph applies where-

- (a) either-
- (i) there is a disability element or severe disability element (or both)(5) to the tax credit received by the person or the person's partner; or

(1) 1992 p.4; diwygiwyd gan Ddeddf Credydau Treth 2002 (p.21), adrannau 60 ac Atodlen 6. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) 1995 p.18; diwygiwyd gan Ddeddf Pensiynwyr a Diwygio Lles 1999 (p. 30), adrannau 59 ac 88 ac Atodlenni 7 a 13.

(3) 2002 p.21.

(4) 2002 p.16.

(5) *Gweler* adran 11(3), (4) a (6) o Ddeddf Credydau Treth 2002.

(1) 1992 c. 4; amended by the Tax Credits Act 2002 (c.21), sections 60 and Schedule 6. There are other amendments not relevant to these Regulations.

(2) 1995 c.18; amended by the Welfare Reform and Pensioners Act 1999 (c. 30), sections 59 and 88 and Schedules 7 and 13.

(3) 2002 c.21.

(4) 2002 c.16.

(5) *See* section 11(3), (4) and (6) of the Tax Credits Act 2002.

(ii) yw'r person neu bartner y person hefyd yn cael credyd treth plant (1); a

(b) yw'r incwm blynyddol gros a gymerir i ystyriaeth ar gyfer cyfrifo'r credyd treth gwaith yn £14, 213 neu lai.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "partner" ("*partner*") o ran person, yw-

(a) os yw'r person yn aelod o gwpwl, yr aelod arall o'r cwpwl hwnnw; neu

(b) os yw'r person yn briod ar yr un pryd â dau neu fwy o aelodau o aelwyd y person hwnnw, unrhyw aelod o'r fath.

(5) Ym mharagraff (4), ystyr "cwpwl" ("*couple*") yw-

(a) dyn a dynes sy'n briod â'i gilydd ac sy'n aelodau o'r un aelwyd;

(b) dyn a dynes nad ydynt yn briod â'i gilydd ond sy'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig;

(c) dau o bobl o'r un rhyw sy'n bartneriaid sifil i'w gilydd ac sy'n aelodau o'r un aelwyd; neu

(ch) dau o bobl o'r un rhyw nad ydynt yn bartneriaid sifil i'w gilydd ond sy'n byw gyda'i gilydd megis petaent yn bartneriaid sifil,

ac at ddibenion is-baragraff (ch), rhaid ystyried bod dau o bobl o'r un rhyw yn byw gyda'i gilydd megis petaent yn bartneriaid sifil os, ond yn unig os, byddid yn ystyried eu bod yn byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig petaent yn hytrach yn ddau o bobl o wahanol ryw.

### Ad-dalu ffioedd

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), o ran unrhyw apêl neu gais y mae ffi i'w thalu ar ei gyfer o dan reoliad 3, caiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti i'r apêl neu'r cais ad-dalu i unrhyw barti arall y cyfan neu ran o unrhyw ffi a dalwyd gan y parti hwnnw o ran yr apêl neu'r cais.

(2) Ni chaiff tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i barti wneud ad-daliad o'r fath os yw'r tribiwnlys, pan fo'n ystyried p'un ai i wneud hynny ai peidio, wedi'i fodloni fod y parti neu bartner y parti yn cael cymorth o unrhyw fath a grybwyllir yn rheoliad 5(2).

(ii) the person or the person's partner is also in receipt of child tax credit (1); and

(b) the gross annual income taken into account for the calculation of the working tax credit is £14, 213 or less.

(4) In this regulation "partner" ("*partner*"), in relation to a person, means-

(a) where the person is a member of a couple, the other member of that couple; or

(b) where the person is polygamously married to two or more members of that person's household, any such member.

(5) In paragraph (4), "couple" ("*cwpwl*") means-

(a) a man and woman who are married to each other and are members of the same household;

(b) a man and woman who are not married to each other but are living together as husband and wife;

(c) two people of the same sex who are civil partners of each other and are members of the same household; or

(d) two people of the same sex who are not civil partners of each other but are living together as if they were civil partners,

and for the purposes of sub-paragraph (d), two people of the same sex are to be regarded as living together as if they were civil partners if, but only if, they would be regarded as living together as husband and wife were they instead two people of the opposite sex.

### Reimbursement of fees

6.-(1) Subject to paragraph (2), in relation to any appeal or application in respect of which a fee is payable under regulation 3, a tribunal may require any party to the appeal or application to reimburse any other party to the extent of the whole or part of any fee paid by the party in respect of the appeal or application.

(2) A tribunal must not require a party to make such reimbursement if, at the time the tribunal is considering whether or not to do so, the tribunal is satisfied that the party or the party's partner is in receipt of assistance of any description mentioned in regulation 5(2).

(1) *Gweler* adran 8 o Deddf Credydau Treth 2002.

(1) *See* section 8 of the Tax Credits Act 2002.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Deddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

20 Mehefin 2006

20 June 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2006 Rhif 1642 (Cy.157)**

**TAI, CYMRU**

Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo  
Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2006 No. 1642 (W.157)**

**HOUSING, WALES**

The Residential Property Tribunal  
(Fees) (Wales) Regulations 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W343/06/06

ON